# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 27 Mawrth 2020 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 30 Mawrth 2020 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 6 Ebrill 2020 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd

**PWNC** Rhaglen Bwrdd Adfywio'r Cyngor

**PENDERFYNIAD –**
Ymrwymo swm o £38,500 o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor er mwyn cynnal capasiti'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn ystod 2020/21 pan fydd rhaglen Bwrdd Adfywio'r Cyngor yn cael ei datblygu.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**
Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Llyr B. Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 27 Mawrth 2020 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Rhaglen Bwrdd Adfywio'r Cyngor**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Ymrwymo swm o £38,500 o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor er mwyn cynnal capasiti'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn ystod 2020/21 pan fydd rhaglen Bwrdd Adfywio'r Cyngor yn cael ei datblygu.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae penderfyniad er mwyn ymrwymo adnoddau o Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor. Gwneir y penderfyniad yn unol a rhan 5.6 o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn sgil ei ddyhead i gymryd agwedd trawsffurfiol i'r maes adfywio cymunedau mae'r Cabinet wedi sefydlu Bwrdd Adfywio. Bwriedir i'r Bwrdd gynnig cyfrwng i gymryd agwedd mwy cydlynol ar yr ystod o weithgareddau yr ydym yn eu gwneud i adfywio ein cymunedau.

Ystyrir 'adfywio' fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, amgylcheddol ac yn gymdeithasol – sef y gweithgareddau hynny sydd yn dod a chymuned yn agosach at y darlun delfrydol a sut hoffem i gymuned fod.

Mae'n amlwg felly fod nifer o Wasanaethau ar draws y Cyngor yn cyfrannu'n uniongyrchol i'n hymdrechion i adfywio cymunedau. Yn hanesyddol, mae'n debyg fod gweithgareddau hyn wedi eu cyflawni heb ystyried a oes modd eu cyd-gysylltu yn agosach at ei gilydd.

Er mwyn gwireddu uchelgais y Bwrdd Adfywio, mae bwriad o ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd ar gyfer cymunedau'r Sir. Er nad yw'r gwaith o lunio'r Fframwaith arfaethedig wedi ei gwblhau, mae'r Bwrdd Adfywio eisoes wedi adnabod yr angen i

ymgysylltu gyda chymunedau lleol, i ystyried blaenoriaethau ardaloedd penodol, ac i ddatblygu cynlluniau ardal.

Pwrpas y Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yw cefnogi sefydliadau lleol, boed yn Gyngor Tref / Cymuned, grŵp gwirfoddol neu endid cymunedol, i weithredu er mwyn gwneud eu cymunedau yn lle gwell i fyw.

Ers sefydlu'r rhwydwaith swyddogion adfywio bro yn wreiddiol yn 1997, mae'n wir dweud fod eu rôl wedi esblygu yn gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf. Yn wreiddiol roedd pwyslais ar sbarduno syniadau menter mewn cymunedau a chefnogi mentrau newydd. Yn 2001, addaswyd y trefniadau i gydweithio gyda chymunedau mewn 8 dalgylch ar draws Gwynedd i gynhyrchu cynlluniau adfywio bro.

Fel rhan o raglen arbedion y Cyngor yn 2012, penderfynwyd cwtogi'r rhwydwaith swyddogion bro o 8 i 5 swyddog. Rhoddwyd hefyd fwy o flaenoriaeth i dargedu cymunedau o angen a datblygwyd y tîm yn gyfochrog â Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yng Ngwynedd oedd yn weithredol hyd at 2018. Hefyd, penderfynwyd gweithredu arbediad pellach o £45,000 drwy ddileu swydd a newid trefniadau rheoli o fewn yr Adran.

Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r Gwasanaeth wedi bod yn fwy ymatebol i ofynion y cymunedau gyda mwy o bwyslais ar gefnogi cymunedau i ymateb i newid. Mae natur y galw am gymorth yn amrywiol iawn gyda mwy o bwyslais bellach ar gynorthwyo cymunedau i gynllunio yn sgil newidiadau i drefniadau darparu gwasanaethau cyrff cyhoeddus a llai o brosiectau wedi eu cynllunio fel rhan o raglen fwriadol i adfywio cymunedau. Mae'r Gwasanaeth hefyd gweithio'n agos gyda Chynghorau Cymuned a'r trydydd sector ac mewn nifer o gymunedau yn gweithredu fel prif bwynt cyswllt i'r Cyngor

Bellach, mae adnoddau craidd y Gwasanaeth yn cynnwys rheolwr, a thri swyddog cefnogi cymunedau gyda swyddfeydd yn Nolgellau, Pwllheli, Penygroes a Bethesda. Er mwyn ymateb i newidiadau staff a bylchau mewn darpariaeth, mae swyddog dros dro wedi ei benodi hyd at ddiwedd Mawrth 2020.

Byddai sicrhau'r adnoddau yn caniatáu'r Gwasanaeth i ymestyn y trefniadau presennol am gyfnod o 12 mis. O ystyried bwriadau'r Bwrdd Adfywio, ni fyddai'n gwneud synnwyr i golli adnodd y byddwn yn debygol iawn o'i angen dros y misoedd nesaf. Byddai'n galluogi'r Gwasanaeth i gymryd rhan flaengar yn y gwaith ychwanegol o ymgysylltu gyda chymunedau a chyfrannu at baratoi cynlluniau ardal ar draws y sir.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid –**

"Mae'r Cabinet wedi sefydlu'r Bwrdd Adfywio, gyda'r bwriad iddo gymryd agwedd mwy cydlynol ar yr ystod o weithgareddau yr ydym yn eu gwneud i adfywio ein cymunedau, a byddai'r arian yma cynnal capasiti dros dro i'r perwyl. Mae adnoddau digonol yng Nghronfa Trawsffurfio'r Cyngor i gwrdd â'r cais yma. Serch hynny, bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd cyfyngedig y gronfa hon, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau perthnasol".

**Swyddog Monitro –**

Fel y nodir yn adroddiad mae’r Arweinydd yn gweithredu ei hawliau penderfynu yn unol Paragraff 5.6 o Adran 5 y Cyfansoddiad sydd yn gosod hawliau gweithredol yn nwylo’r Arweinydd. Rwy’n cadarnhau fod hyn yn unol a Chyfansoddiad y Cyngor.